## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 8fed Hydref 2018**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 8th October 2018**

**Yn Bresennol/Present**:
Cyng/Cllrs, Eileen Curry, Douglas Davies, Keith Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Susan Lloyd, Abby Reid a Chynghorydd Sir/County Cllr Peter Davies

Personol / Personal

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Beth Davies, Peter Evans, Aled Jones a Llŷr Jones /Apologies for absence was received from Cllrs Tom Cowcher, Beth Davies, Peter Evans, Aled Jones and Llyr Jones.
2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Mynegwyd budd gan Gyng Abby Reid mewn perthynas â chais sgowtiaid Llandysul am grant ar gyfer eu noson tân gwyllt / There were declarations of interest shown by Cllr Abby Reid with regards to Llandysul scouts firework grant application.
3. **Cofnodion/Minutes** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 yn gywir ar yr amod bod y dyddiad pan gynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus Hywel Dda yn cael ei newid o 4 Hydref, fel y nodir yn y cofnodion, i 3 Hydref / Minutes of monthly meeting held on 10th September 2018 was accepted as correct following changing the date that the Hywel Dda public meeting was held on the 3rd of October and not the 4th as stated on the minutes.

4 **<u>Materion yn Codi</u>:-**

**<u>Personol</u>**
Diolchodd Peter Davies AC i'r Cynghorwyr Cymuned am eu dymuniadau da a'u geiriau caredig.

**<u>Gwobr y Gymuned</u>**
Ni chafwyd unrhyw enwebiadau. Atgoffwyd pawb o'r dyddiad cau ym mis Tachwedd.

**<u>Cyflog y Clerc</u>**
Penderfynwyd trafod y mater hwn ar ddiwedd y cyfarfod, mewn pwyllgor.

**<u>Lwfans Cynghorwyr</u>**
Atgoffwyd yr holl Gynghorwyr gan y clerc i ddychwelyd eu papurau Lwfans Cynghorwyr.

**<u>Cynllun Datblygu Lleol</u>**
Esboniodd Cyng Keith Evans y byddai cyfarfod Traws-Sirol yn cael ei gynnal ynghylch yr ymatebion i'r Cynllun Datblygu Lleol. Byddai ef yn mynychu'r cyfarfod a gynhelir yn y Ganolfan Fwyd yn Horeb.

**<u>Cynnal a Chadw</u>**
Nid yw'r slab ar y ffordd i lawr i faes parcio Llandysul wedi wedi cael ei sicrhau o hyd. Nid yw'r canllaw ger y safle bws wedi cael ei drwsio o hyd. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto.

**<u>Lloches Bws</u>**
Roedd Cyng Gethin Jones wedi cael cyfarfod gyda Steve Williams ynghylch y lloches bws ym Mhont-siân, ac mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt i drwsio'r broblem ar y lloches bws.

**Materion y mae gofyn gwneud Penderfyniad Amdanynt**

**4) <u>Ceisiadau Ariannol</u>:-** .

Sgowtiaid Llandysul – Tân gwyllt – Cafwyd cais yn gofyn am rodd o £500 er mwyn cynnal yr arddangosfa tân gwyllt ym Mharc Llandysul. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

5) **<u>Materion i'w trafod</u>**

**<u>Materion Wardiau</u>**

Cynhaliwyd sesiwn alw heibio yn Neuadd Tysul ar 4 Hydref ynghylch cau Meddygfa Teifi. Byddai hyn yn cael effaith anferth ar Llandysul oherwydd y byddai llai o bobl yn ymweld â'r

4 **<u>Matters Arising</u>:-**

**<u>Personal</u>**
AM Peter Davies had thanked the Community Councillors for their good wishes and kind words.

**<u>Community Award</u>**
No nominations had been received. All were reminded of the closing date in November.

**<u>Clerks salary</u>**
It was decided to discuss this matter at the end of the meeting, in committee.

**<u>Councillors Allowance</u>**
The clerk reminded all Councillors to return they're Councillors Allowance papers.

**<u>Local Development Plan</u>**
Cllr Keith Evans explained that there would be a meeting Cross County with regards to the responses on the Local Development Plan. He would be attending the meeting to be held at the Food Centre in Horeb.

**<u>Maintenance</u>**
The slab on the way down to Llandysul car park had still not been secured. The railing by the bus stop has still not been repaired. The clerk to contact the County Council again.

**<u>Bus Shelter</u>**
Cllr Gethin Jones had met with Steve Williams with regards to the bus shelter in Pontsian, plans are underway to rectify the problem with the bus shelter.

**Matters Requiring Decisions**

**4) <u>Funding Applications</u>:-** .

Llandysul Scouts – Fireworks – An application was received asking for a donation of £500 for hosting the fireworks display in Llandysul Park. It was decided to donate the requested amount.

5) **<u>Matters for discussion</u>**

**<u>Ward Matters</u>**

There was a drop in centre at Tysul Hall on the 4th of October with regards to the closure of Teifi Surgery.
There would be a huge impact to Llandysul with less people visiting the town.
All patients were told that they would be

dref.
Hysbyswyd yr holl gleifion y byddent yn cael gwybod mewn llythyr pa feddygfa y byddent yn cael eu symud iddi ac y byddai ganddynt yr hawl i apelio pe na byddent yn fodlon.
Mae'n bwysig hefyd nad yw pobl yn beio'r Bwrdd Iechyd am gau'r feddygfa, gan mai dim ond ymateb i'r broblem y maen nhw yn ei wneud.
Gellir gweld y papur sy'n trafod y penderfyniad i gau'r feddygfa ar wefan y Bwrdd Iechyd, sef y Pwyllgor Ceisiadau Gofal Sylfaenol.
Esboniodd Cyng Keith Evans ei fod wedi trefnu cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Sirol, Peter Skitt, gan nad oedd unrhyw Ganolfan wedi cael ei threfnu ar gyfer Llandysul na Llanbedr Pont Steffan, sy'n peri cryn bryder.

Esboniodd Cyng Abby Reid bod y draeniau ar waelod Lôn Letty ac i fyny'r stryd fawr o Sgwâr Bradford wedi blocio, a bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

Nododd Cyng Mike Hotson eu bod yn cynnal dydd Gwener teimlo'n dda yn y pafiliwn chwaraeon bob mis ar gyfer pobl, gwirfoddolwyr a gofalwyr. Byddant yn cynnal sesiwn bowlio 12 awr ar 20 Hydref yn Xcel Bowl Caerfyrddin, ac estynnwyd gwahoddiad i bawb fynychu neu i noddi.
Esboniodd hefyd y byddai Arts for Wellbeing yn cynnal stiwdio straeon er mwyn cael sgyrsiau gyda phobl am eu bywydau yn Llandysul. Roedd yn chwilio am unrhyw leoliadau posibl er mwyn cynnal y digwyddiad hefyd.

**Capel Dewi**

Roedd Cyng Tom Cowcher yn dymuno atgoffa'r holl Gynghorwyr o'r Goelcerth y byddai ef yn ei threfnu ym Mhenrhiw, Capel Dewi ar 11 Tachwedd. Penderfynwyd y byddai'r clerc a Chyng Abby Reid yn rhoi hysbysiad ar y dudalen Facebook yn hysbysu pobl o hyn ac yn gofyn am wirfoddolwyr hefyd.

Yn ogystal, diolchodd i bawb am yr Ŵyl Gerdded a'r teithiau cerdded gwych a drefnwyd. Roedd nifer dda wedi mynychu.

Roedd y coed o Landysul i Gapel Dewi wedi cael

informed by letter of which surgery they would actually be relocated to and that they would have the right to appeal if they weren’t happy.
It is also important that people don’t blame the Health Board for the closure but they are simply responding to the problem.
The paper discussing the closure is on the Health Board website namely Primary Care Applications Committee.
Cllr Keith Evans explained that he had arranged a meeting with County Director Peter Skitt as there were no Hub arranged for Llandysul or Lampeter which was very worrying.

Cllr Abby Reid explained that the drains at the bottom of Lon Letty and up the main street from Bradford Square were blocked, the clerk to contact the County Council.

Cllr Mike Hotson that they host a feel good Friday for people at the sports pavilion every month for people, volunteers and carers. They would be hosting a 12hr bowlathon on the 20 October at Xcel Bowl Carmarthen, all were invited to attend or sponsor.
He also explained that Arts for Wellbeing would be holding a story studio for conversations with people about their lives in Llandysul. He was also looking for any possible venues to hold the event.

**Capel Dewi**

Cllr Tom Cowcher wished to remind all the Councillors of the Beacon of Light that he was going to arrange at Penrhiw, Capel Dewi on the 11th of November. It was decided that the clerk and Cllr Abby Reid place a notice on the Facebook page informing people and also asking for volunteers.

He also thanked everyone for the Walking Festival and the great walks that were organised. It was very well attended.

The trees from Llandysul to Capel Dewi had been cut but the cuttings had been left at the side of the road.

eu torri ond roedd yr hyn a dorrwyd wedi cael ei adael ar ochr y ffordd.

**Pren-gwyn**
Esboniodd Cyng Eileen Curry y cynhaliwyd un sesiwn casglu ysbwriel ar y ffordd rhwng Pren-gwyn a Phont-siân.
**Pont-siân**
Roedd Cyng Gethin Jones wedi cael cwynion amrywiol ynghylch goryrru ym Mhont-siân ar hyd y Ffordd sy'n dod o Dalgarreg.
Penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i weld a fyddai modd symud yr arwyddion ymhellach i fyny.
**Horeb**
Penderfynwyd y byddai Cyng Peter Davies yn galw ym Maesgwyn Horeb i'w cynghori ynghylch gosod cyrbau wrth ymyl y fainc.
**Llandysul**

6) **Cydnabod derbyn rhodd**

Dim

**Gohebiaeth**
Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 10 Medi ac 8 Hydref 2018.
Cafwyd y canlynol gan

**Gyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd llythyr ynghylch Safoni enwau lleoedd. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am restr wedi'i diweddaru, gan sicrhau bod Pont-siân wedi cael ei newid.

**ULlC/SLCC/Clerks and Councils Direct** –
Cafwyd yr agenda ar gyfer Cyfarfod Ardal Ceredigion a gynhaliwyd ar 28 Medi 2018.
Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
Roedd y clerc wedi cofrestru Cyngor Cymuned Llandysul gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
**Grant Thornton** Cafwyd Hysbysiad o Gwblhau

**Prengwyn**
Cllr Eileen Curry explained that there had been one litter pick done on the road from Prengwyn to Pontsian.
**Pontsian**
Cllr Gethin Jones had received various complaints with regards to speeding in Pontsian coming in from the Talgarreg Road. It was decided that the clerk contact the County Council to see if it would be possible to move the signs further up.
**Horeb**
It was decided that Cllr Peter Davies to call at Maesgwyn Horeb to advise them with placing kerb stones by the bench.
**Llandysul**

6) **Acknowledge receipt of donation**

None

**Correspondence**
Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 10th September– 8th October 2018 was tabled.
The following were received from

**Ceredigion County Council**

A letter was received with the Standardisation of place names. It was decided that the clerk contact the County Council for an updated list and to ensure that Pontsian had been changed.

**OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct** –
Agenda for the Ceredigion Area Meeting on 28 September 2018 was received.
The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct were received.

**ICO**
The clerk had registered Llandysul Community Council with the Information Commissioners Office.

**Grant Thornton** Notice of Conclusion of Audit was received and unanimously approved and accepted. Notice to be displayed for a period of 14 days. Accounts also available for inspection at Clerks home address by previous

Archwiliad a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i'w gymeradwyo a'i dderbyn. Dangosir yr hysbysiad am gyfnod o 14 diwrnod. Mae cyfrifon ar gael i'w harchwilio hefyd yng nghartref y Clerc trwy wneud apwyntiad ymlaen llaw.
Roedd rhai materion yr oedd angen tynnu sylw'r Cynghorwyr atynt, sef
Blwch 14 – Datganiad Cyfrifyddu – roedd y Clerc wedi nodi NA ond dylai fod wedi nodi AMH.
Amseriad yr Archwiliad Mewnol – Dylai'r Archwilydd Mewnol gymeradwyo'r Cyfrifon cyn i'r Cyngor Cymuned Gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifyddu.
Roedd y Cadeirydd wedi llofnodi yn y blwch Ail-Gymeradwyo trwy ddamwain, ond roedd wedi dangos hyn ar y ffurflen. Maent yn gofyn a oes modd sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto
Lefel isel o Gronfeydd wrth Gefn – Dylai'r Cyngor ystyried cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn y byddant yn eu dal yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau yn dymuno llongyfarch y Clerc unwaith eto am sicrhau archwiliad glân.

**Post Brenhinol**
Cafwyd hysbysiad am bost sy'n ceisio Twyllo. Penderfynwyd y dylai'r clerc roi'r hysbysiad ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned.

**Western Power**
Cafwyd Cysylltiadau Dros Dro ar gyfer Goleuadau Nadolig. Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu â Derwen Lighting i gwblhau'r gwaith.

7 **Cynllunio**:

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhelir ar 10 Hydref 2018.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

A180934 – Glasfryn, Horeb – Adeiladu garej/gweithdy un llawr

8) Gwybodaeth Ariannol

appointment.
There were some matters that needed to draw the Councillors attention to
Box 14 – Accounting Statement – Clerk stated NO but should have stated N/A.
Timing of the Internal Audit – The Internal Auditor should approve the Accounts prior to the Community Council Approving the Accounting Statement.
The Chairman had signed accidently in the Re-Approval box but had shown this on the form. They ask to ensure that this does not re-occur
Low level of Reserves – The Council should consider increasing the level of reserves that they hold in future years.

Members congratulated the Clerk on yet again achieving a clean audit.

**Royal Mail**
Notice of Scam mail was received. It was decided that the clerk place the notice on the Community Councils Facebook page.

**Western Power**
Temporary Connections for Christmas Lighting was received. It was decided that the Clerk Contact Derwen Lighting to complete the work.

7 **Planning**:

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 10th October 2018 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-

A180934 – Glasfryn, Horeb-Erection of single storey garage/workshop

8) Financial Information

**Invoices:**-

Swalec – Invoice for £607.32 for Christmas Lighting in Llandysul in 2017 was received and passed for payment.

**Anfonebau:-**

Swalec – Cafwyd anfoneb am y swm o £607.32 am y Goleuadau Nadolig yn Llandysul yn 2017 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Grant Thornton – Ysgrifennwyd siec am y swm o £270.90 am yr Archwiliad Blynyddol

ICO – Ysgrifennwyd siec am y swm o £40 er mwyn ymaelodi â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Llinos Jones a Rhodri Thomas

Ni chafwyd anfonebau.

Abacus Cleaning– Ail-ysgrifennwyd sieciau 000673 a 000692 am £427.50 i E Rees fis diwethaf ond oherwydd bod camgymeriad ar y siec, fe'i hail-ysgrifennwyd.
Cyfanswm y siec a ysgrifennwyd oedd £427.50

Grant Thornton – Cheque for £270.90 was written for Annual Inspection off

ICO – Cheque for £40 was written for membership to Information Commissioners Office.

Llinos Jones and Rhodri Thomas

Invoices were not received.

Abacus Cleaning– Cheque 000673 and 000692 rewritten for £427.50 was re written to E Rees last month but as the cheque had an error on it it was re written.
Total of cheque written was £427.50

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:**

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | £ c/£ p | |
| Nia Davies | Rhyngrwyd/Broadband | 105.00 | 000698 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 423.24 | 000699 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 105.80 | 000700 |
| Swalec | Golau Nadolig/Xmas Lights 2017 | 607.32 | 000701 |
| Grant Thornton | Awdit/Audit | 270.90 | 000702 |
| ICO | Aelodaeth/Membership | 105.00 | 000703 |
| E Rees | Cynnal a Chadw/Maintenance | 427.50 | 000704 |